Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

# Y Gwasanaeth Asesu Ansawdd Cyfieithiad

## 1. Cyflwyniad

Yn Nhrefn Gwyno'r Gymdeithas nodir fod y Gymdeithas yn cynnig Gwasanaeth Asesu Ansawdd Cyfieithiad a fydd yn ymateb i sefyllfa lle ceir cwyn am gyfieithiad yn hytrach nag am ymddygiad aelod. Codir ffi am ddarparu'r gwasanaeth. Gan ddibynnu ar amlder y cwynion yn erbyn cyfieithiadau gan aelod, ar lefel ei aelodaeth ac ar ddifrifoldeb y gwallau, gallai'r gwasanaeth arwain at ddwyn achos yn erbyn aelod am dorri'r Cod Ymddygiad.

## 2. Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yw'r corff proffesiynol cenedlaethol i gyfieithwyr Cymraeg/Saesneg, p'un a ydynt yn gyfieithwyr testun neu'n gyfieithwyr ar y pryd.

Mae gan y Gymdeithas dair lefel o aelodaeth unigol: Cyflawn a Sylfaenol ym maes cyfieithu testun ac aelodaeth Cyfieithu ar y Pryd. Rhaid i bob aelod ymrwymo i'r Cod Ymddygiad Proffesiynol wrth dalu ei dâl aelodaeth yn flynyddol. Mae ganddi hefyd Aelodaeth Gorfforaethol i gwmnïau cyfieithu cymwys yn y sector preifat a chaiff unedau cyfieithu cymwys yn y sector cyhoeddus a dielw eu cydnabod yn Sefydliadau Cyswllt.

Nod y Gymdeithas yw cynnal, hyrwyddo a sicrhau'r safonau proffesiynol uchaf mewn cyfieithu Cymraeg/Saesneg, yn ogystal â sicrhau bod y diwydiant cyfieithu yn datblygu'n effeithiol fel rhan o'r broses o hybu'r Gymraeg a hyrwyddo dwyieithrwydd.

Ariennir y Gymdeithas yn rhannol gan Lywodraeth Cymru yn 2016-17.

I gael gwybod rhagor am Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru, ewch i'n gwefan, www.cyfieithwyr.cymru

## 3. Y Gwasanaeth Asesu Ansawdd Cyfieithiad

**3.1** Bydd y Gymdeithas yn cynnig gwasanaeth i unrhyw un – boed yn unigolyn, yn gwmni neu'n sefydliad – sy'n barnu bod cyfieithiad yn anfoddhaol neu'n wallus. Gellir gofyn am farn ar gyfieithiad o ddogfen neu o arwydd. Codir ffioedd gwahanol am hynny.

**3.2** Bydd y gwasanaeth yn cynnig barn ar gyfieithiad o ddim mwy na 300 o eiriau'r testun gwreiddiol. Cyflwynir sylwadau cryno mewn adroddiad byr a fydd yn cyfeirio at hyd at 4 enghraifft sy'n cyfleu barn yr asesydd am y cyfieithiad. Ni fydd yr asesydd yn ymdrin yn fanwl â'r cyfieithiad yn ei gyfanrwydd.

Bydd 3 maen prawf wrth farnu'r cyfieithiad:

i) Mae'r cyfieithiad o safon foddhaol, ac yn llwyddiannus.

ii) Er bod y cyfieithiad o safon foddhaol ar y cyfan, mae rhai mân wallau ynddo.
iii) Mae'r cyfieithiad o safon anfoddhaol am ei fod yn cynnwys rhai gwallau pwysig.

Y ffi am y gwasanaeth hwn fydd £50 (hanner can punt). Nid ychwanegir TAW at y ffi hon.

Os hoffech gael barn ar ragor o eiriau na'r hyn a gynigir am y ffi sylfaenol, bydd y ffi'n uwch, yn ddibynnol ar y cais a gyflwynir. Cytunir ar y ffi cyn cychwyn ar y gwaith.

Yn yr un modd, os hoffech gael adborth llawnach na'r hyn a gynigir am y ffi sylfaenol, codir ffi bellach ac fe gytunir ar y ffi yn ôl natur y wybodaeth bellach y gofynnir amdani.

**3.3** Gall y Gwasanaeth Asesu Ansawdd Cyfieithiad gynnig sylwadau cryno ar arwyddion a gam-gyfieithwyd.

Y ffi am y gwasanaeth hwn fydd £25 (pum punt ar hugain). Nid ychwanegir TAW at y ffi hon.

## 4. Pwy sy'n gwneud yr asesiad?

Caiff y gwaith ei wneud, fel rheol, gan aelod o Gofrestr Marcwyr Arholiadau Testun y Gymdeithas, ond gellir gofyn i Aelod Cyflawn arall ei wneud mewn rhai amgylchiadau.

Aelodau'r Gofrestr Marcwyr sy'n gyfrifol am farcio sgriptiau arholiadau'r Gymdeithas yn unol â'i chanllawiau marcio ac am wneud rhywfaint o'r gwaith hyfforddi (gan gynnwys yr e-weithdy cyfieithu). Rhaid bod yn Aelod Cyflawn profiadol i fod yn aelod o'r Gofrestr a rhaid dilyn cynllun hyfforddi cyn dod yn aelod llawn ohoni.

## 5. Defnyddio'r Gwasanaeth Asesu Ansawdd Cyfieithiad

Dylid anfon y cyfieithiad y dymunwch i'r Gymdeithas ei asesu trwy'r gwasanaeth hwn, a'r darn yn yr iaith wreiddiol, at sylw Prif Weithredwr y Gymdeithas: geraint@cyfieithwyr.cymru
Dylai'r cais egluro'n gryno pam y bernir bod y cyfieithiad yn afoddhaol neu'n wallus.

Bydd y Gymdeithas yn delio â chwyn am gyfieithiad trwy'r gwasanaeth hwn cyn pen 21 diwrnod gwaith. Os cymer hi fwy na hynny, bydd y Gymdeithas yn rhoi gwybod i'r sawl sydd wedi cwyno am y rhesymau dros yr oedi.